

Astudiaeth Achos Ymgysylltu

Manylion cyswllt

Enw: Fatima Sayed

Teitl/rôl: Ymarferydd Ymgysylltu'r Gwasanaeth Sgrinio

Mudiad: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ebost: fatima.sayed@wales.nhs.uk

Ffôn: 01978 726713

Teitl yr Astudiaeth Achos: Grŵp Ffocws Prosiect Canolfan Islamaidd

Partner Fudiad(au): Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canolfan Ddiwylliannol Islamaidd

Geiriau allweddol:

Gwybodaeth sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymuned Fwslimaidd

1. Cyflwyniad cryno

Mae cancer yn effeithio ar lawer o bobl yn ystod eu hoes, ac felly mae'n bwysig iawn darparu gwybodaeth gywir ynglŷn â rhaglenni sgrinio sydd ar gael er mwyn galluogi dewis gwybodus. Yng ngoleuni tystiolaeth ehangach sydd ar gael ar lefel genedlaethol a rhyngwladol ac o ystyried nod Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu Cymru iachach, hapusach a thecach, penderfynom gynnal gwaith prosiect gyda'r Gymuned Fwslimaidd yn Wrecsam i sefydlu rhwydwaith cynaliadwy i rannu gwybodaeth ynglŷn ag iechyd a sgrinio â'r gymuned, y gellid ei efelychu ar gyfer cymunedau eraill o Bobl Dduon a Lleihafri foedd Ethnig ledled Cymru. Roedd cynllun y prosiect yn cynnwys nifer o gamau megis y cam cychwynnol sef canfod cyfryngwyr cymunedol a chysylltu â nhw. Arweiniodd canlyniad y cam hwn at grŵp ffocws lle cyfranogodd menywod a oedd yn cynrychioli 7 cenedligrwydd gwahanol. Arweiniodd canlyniad y grŵp ffocws at gynllunio a chynnal hyfforddiant i hyrwyddwyr cymunedol y mis wedyn. Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn y mosg ac fe arweiniodd at ymrwymiad gan yr hyrwyddwyr cymunedol i gynllunio 4 digwyddiad yn ystod y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o raglenni sgrinio yn eu cymuned.

2. Manylion y mater a ymdriniwyd ag ef

Cyfranogodd 7 o fenywod a'r nod oedd datblygu cynllun i rannu gwybodaeth ynglŷn â sgrinio o fewn y gymuned. Lluniwyd cynllun sesiwn llawn ynghyd ag adnoddau i

gefnogi gwaith y grŵp ffocws. Arweiniodd canlyniad y grŵp ffocws at hyfforddi pob un o'r 7 aelod fel hyrwyddwyr cymunedol dros sgrinio a fydd yn rhannu gwybodaeth o fewn y gymuned. Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn y mosg ac fe arweiniodd at ymrwymiad gan yr hyrwyddwyr a hyfforddwyr i drefnu digwyddiadau megis bore coffi, cinio yn y mosg a digwyddiad iechyd yn y flwyddyn i ddod i godi ymwybyddiaeth o'r holl raglenni sgrinio.

3. Gweithredoedd/dull a gymerwyd

Roedd y camau ar ôl y grŵp ffocws yn cynnwys hyfforddi'r hyrwyddwyr cymunedol a fyddai'n trefnu digwyddiad yn y mosg yn ystod misoedd yr ymgyrch.

4. Buddion fel: gwella gwasanaeth, gwell ddeialog o ran cynllunio gwasanaeth ayyb.

Buddion y grŵp ffocws oedd cynnwys cymuned na chlywir ei llais yn aml a gallu ymgysylltu â hi yn ogystal â'i chynnwys i chwarae rhan weithredol yn codi ymwybyddiaeth o'u cymuned eu hunain. Un o ganlyniadau disgwylidig y grŵp ffocws oedd sefydlu grŵp menywod wedi'i strwythuro'n dda o fewn y mosg.

5. Cynnal a/neu adeiladu ar y buddion a gafwyd

Drwy sefydlu'r grŵp o fewn y mosg, cyfrannwyd at gynaliadwyedd y prosiect. Mae'r grŵp hwn yn gweithredu fel cyswllt rhwng y mudiad a'r gymuned i adeiladu ar y berthynas sy'n bodoli eisoes.

6. Sut, yn eich barn chi, y bu i'r dull ateb yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru?

Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Cynhaliwyd y grŵp ffocws ar gychwyn un y prosiect felly arweiniodd canlyniad yr ymgysylltu at hyfforddi'r aelodau o'r gymuned fel hyrwyddwyr sydd bellach wedi ymrwymo i rannu gwybodaeth ynglŷn â sgrinio â'u cymuned.

Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Rhoddwyd y gwahoddiadau yn bersonol gan un o aelodau o'r adran i'r menywod ar ôl gweddi dydd Gwener ymhell ymlaen llaw a gofynnwyd iddynt a oedd yr amser a'r lleoliad yn addas. Arweiniodd hyn at bresenoldeb 100 y cant o'r rheini a oedd am gymryd rhan heb neb yn tynnu'n ôl. Oherwydd y rhwystrau diwyllianol ni ellid cynnwys dynion bryd hynny. Byddai'n well cynnwys defnyddwyr gwrywaidd y gwasanaethau yn ogystal y tro nesaf a bwrw bod adnoddau priodol ar gael i gynnal dau grŵp ffocws yr un pryd.

Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Cynlluniwyd y grŵp ffocws ymlaen llaw ar thema benodol sef sut i rannu gwybodaeth ynglŷn â sgrinio â'r gymuned Fwslimaidd. Fe'i cynlluniwyd ar gychwyn un y prosiect a arweiniodd at hyfforddiant a chynllunio digwyddiadau gan yr aelodau o'r cymunedau eu hunain felly roedd yn amserol iawn.

Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Nid oedd hyn yn berthnasol y tro hwn, ond gallem ystyried cynnwys adrannau eraill yn y mudiad yn ystod y digwyddiadau i ddod sydd wedi'u trefnu.

Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y grŵp ffocws yn glir ac yn syml heb ddim jargon meddygol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ynglŷn â'r dewis i'w chyfieithu ymlaen llaw ond nid oedd arnynt ei angen.

Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Gofynnwyd i gyfranogwyr ymlaen llaw a oedd yr amser, y dyddiad a'r lleoliad yn addas a arweiniodd at bresenoldeb llawn.

Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Rhannwyd y cyfranogwyr yn ddau grŵp ac roedd hwyluswyr yn sicrhau bod pawb yn cael ei gynnwys ac yn cael gwybod yr un peth drwy ailadrodd y wybodaeth a'i rhoi ar siart.

Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Cynlluniwyd y grŵp ffocws ymlaen llaw, rhoddwyd digonedd o amser i'r hwyluswyr ac i'r wybodaeth fod ar gael ar gyfer y sesiwn a'r lluniaeth a ddarparwyd, ac roedd y lleoliad yn hygyrch ac wedi'i drefnu'n dda.

Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Rhannwyd canlyniad y grŵp ffocws drwy ebost yn ffurfiol ac ar y cyfryngau cymdeithasol (Whatsup) yn anffurfiol â'r holl gyfranogwyr.

Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Rhoddwyd ffurflen werthuso i'r cyfranogwyr ar y diwedd i'w llenwi. Roedd yn eu holi ynglŷn â threfniant y lleoliad, y ffordd y cynhaliwyd y sesiwn, gallu'r hwyluswyr, amgylchedd y sesiwn, lluniaeth, addasrwydd y lleoliad a hefyd hyd y sesiwn. Dywedodd y mwyafrif helaeth fod y pwyntiau hyn i gyd yn dda iawn gydag ambell yn dweud bod y lluniaeth a hyd y sesiwn yn weddol dda a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

7. Sut fydddech yn graddio'ch dull o gynnal y prosiect o'i gymharu â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru?

Egwyddor	Gwerthusiad				
	1= gwael iawn: 2 = gwael: 3 = cymedrol: 4 = da: 5 = rhagorol				
Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth	1	2	3	4	5
Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny	1	2	3	4	5
Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol	1	2	3	4	5
Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol	1	2	3	4	5
Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall	1	2	3	4	5
Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan	1	2	3	4	5
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol	1	2	3	4	5
Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol	1	2	3	4	5
Mae pobl yn					

cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad	1	2	3	4	5
Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu	1	2	3	4	5